



Bridio Buches Eidion Broffidiol



Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales
Blwch Post 176, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2YA

Ffôn: 01970 625050 Ffacs: 01970 615148

Ebst: info@hccmpw.org.uk

www.hccmpw.org.uk

Medi 2008

Yr Holl Gynnwys Technegol © Coleg Amaethyddol yr Alban
Dylunio © Hybu Cig Cymru 2008

Mae HCC yn cydnabod y cyfraniad a wnaed gan Ian Pritchard, George Calow ac Iain Riddell o Goleg Amaethyddol yr Alban i gynnwys technegol y llyfryn hwn.

Ni ddylid atgynhychu na throsglwyddo'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cwmni. Cymerwyd pob gofal rhesymol wrth baratoi'r ddogfen hon, ond ni warentir cywirdeb y cynnwys, ac ni dderbynnir cyfrifoldeb dros unrhyw golled neu niwed a achosir trwy ddibynnu ar unrhyw osodiad neu unrhyw ddiffyg yn y cyhoeddiad hwn.

Cynnwys

1. Prosiect Gwella Ansawdd Cig Eidion Cymru (WBQIP)	3	4 Cynnal Buches Iach	25
1.1 Cefndir i'r diwydiant		4.1 Clefydau Heintus	
1.2 Nodau'r prosiect		4.2 Cost clefydau	
		4.3 Trefniadau iechyd a chynlluniau iechyd	
		4.4 Biaddiogelwch	
2. Dewis y Tarw Cywir	5	5. Cael y Lloi i Gyflawni	29
2.1 Deall sut i ddewis tarw		5.1 Cofnodi pwysau gwartheg masnachol	
2.2 Y tarw terfynol		5.2 Manteision didolborthiant	
2.3 Y tarw mamol		5.3 Pryd i ddiddyfnu	
2.4 Defnyddio marcwyr genynnau wrth ddewis		6. Polisi Amnewid – allweddol i berfformiad	32
2.5 Tarw go iawn neu darw potel		6.1 Ymnerth croesryw	
2.6 Safbwynt cynhyrchwr cig eidion o Gymru		6.2 Bridio'n bur v croesfridio	
		6.3 Bridio v prynu anifeiliaid amnewid	
3. Ffrwythlondeb y Fuches – Ffactor Allweddol	15	7. Casgliadau	34
3.1 Y pum egwyddor allweddol i wella ffrwythlondeb		Rhagor o wybodaeth	34
3.2 Meincnodi ffrwythlondeb y fuches			
3.3 Manteision ariannol gwell ffrwythlondeb			
3.4 Manteision lloia dros gyfnod byr			
3.5 Monitro marwolaethau lloi			

Rhagair

Er mwyn sicrhau dyfodol cynladwy i'r diwydiant cig eidion yng Nghymru, rhaid dal i wella ansawdd y cynnyrch ac effeithlonrwydd y cynhyrchu. Mae Prosiect Gwella Ansawdd Cig Eidion Cymru (WBQIP) wedi chwarae rhan allweddol yn hyn ac wedi darparu llwyfan gwerthfawr i ffermwyr Cymru adeiladu arno.

Mae proffidioldeb yn allweddol i lwyddiant y fuches gig eidion yng Nghymru ac mae HCC yn gweithio'n agos â'r diwydiant cig eidion i wneud yn siŵr fod yr arferion gorau'n cael eu gweithredu.

Mae Prosiect Gwella Ansawdd Cig Eidion Cymru wedi bod yn llwyddiannus; mae wedi hyfforddi 680 o ffermwyr ac wedi helpu i brynu 325 o deirw. Mae i'r teirw hyn rinweddau genetig da ar gyfer nodweddion o bwys masnachol a byddant yn caniatáu i gynhyrchwyr cig eidion anelu'n uwch.

Mae'r llyfryn hwn yn canolbwyntio ar yr agweddau hynny ar gynhyrchu sydd â chysylltiad agos â phroffidioldeb, dewis tarw, ffrwythlondeb y fuches, rheoli lloi a pholisi amnewid. Ym mhob adran mae'n cyfeirio at ffigurau sy'n berthynol i'r diwydiant yng Nghymru ac a gafodd eu casglu o arolygon neu gyrsiau hyfforddi a oedd yn rhan o WBQIP.

Trwy weithredu argymhellion a gwybodaeth a roddir yn y llyfryn hwn bydd ffermwyr Cymru'n gallu parhau i ddatblygu eu busnesau a gwneud yn siŵr fod defnyddwyr yn cael cynnyrch iach o ansawdd uchel.





Prosiect Gwella Ansawdd Cig Eidion Cymru (WBQIP) cynhyrchu'n fwy effeithlon


1.1 Cefndir i'r diwydiant

Yn 2008 roedd y fuches gig eidion yng Nghymru'n cynnwys 348,000 o anifeiliaid bridio, sef 13% o fuches fridio cig eidion y DG. Dangosir dosbarthiad y gwartheg hyn ledled Cymru yn Ffigur 1.

Mae Cig Eidion Cymru, yr un fath â Chig Oen Cymru, yn mwynhau statws Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig (PGI) sy'n rhoi sicrwydd i gwsmeriaid eu bod yn bwyta cynnyrch o ansawdd. Mae yna botensial aruthrol i fanteisio ar hyn er mwyn gwneud y sector yn fwy proffidiol.

Mae ymchwil i gost cynhyrchu a gafodd ei gomisiynu gan HCC wedi dangos amrywiad enfawr ym mherfformiad ffisegol ac ariannol mentrau cig eidion unigol. Mae'n bwysig i gynhyrchwyr unigol wybod faint mae'n costio iddynt gynhyrchu cig eidion er mwyn gweld pa welliannau sy'n bosibl. Mae modd cael ffigurau costau cynhyrchu cyfredol a chyngor ar sut i wella'r ffigurau hyn i hybu proffidoldeb gan HCC.

Ffigur 1. Dwysedd gwartheg cig eidion yng Nghymru Mehefin 2007



Ffynhonell: GI Services Branch, DEPC, Aberystwyth ©Crown Copyright

1.2 Nodau'r prosiect

Gyda chyllid o £2.2m gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru, cylch gwaith WBQIP oedd "darparu sgiliau i ffermwyr cig eidion fel y gallent ddatblygu eu busnes i fod yn fwy effeithlon a chynladwy". Lluniwyd rhaglen hyfforddi fel bod cynhyrchwyr da byw Cymru'n fwy cymwys i ddewis teirw a'u helpu i ddiwallu amcanion eu menter cig eidion. Hefyd, darparwyd arian i brynu teirw â rhinweddau genetig uwchraddol. Roedd rhaid i'r teirw fod yn 10% uchaf eu brid, o ran twf 400 niwrnod neu drwch cyhyrau a heb fod yn y 10% isaf ar gyfer rhwyddineb lloia. Cafodd y prosiect ei gefnogi ymhellach gan grantiau i gofnodi perfformiad epil pedigri a masnachol.

Amcan y rhaglen oedd gwella ansawdd yr epil o'r buchesi sugno a godro yng Nghymru, gan roi gwell enillion i gynhyrchwyr a chreu diwydiant mwy cystadleuol yng Nghymru. Mae ffigurau gan HCC yn dangos y byddai'r diwydiant yng Nghymru'n ennill tua £3.6m y flwyddyn yn ychwanegol pe bai hanner y lloï sy'n cael eu geni yng Nghymru'n epil i darw yn y 25% uchaf yn hytrach na tharw â rhinweddau genetig is na'r cyffredin. Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn defnyddio data wedi'i gasglu oddi wrth fridwyr cig eidion yng Nghymru a fu'n cyfranogi yn y rhaglen, ac mae'n seiliedig ar egwyddorion bridio cadarn a'r ymchwil gwyddonol diweddaraf.



000

A man in a black jacket and blue jeans is leading a large brown bull. He is holding a lead rope and looking towards the camera. Other men are standing around him, some looking at the bull and others talking.

Two men are standing in a white booth with a yellow door. One man is wearing a yellow jacket and the other is wearing a dark jacket. They are looking out towards the scale area.


A large crowd of people, mostly men, is gathered in the foreground, watching the scene. They are standing behind a metal railing. The crowd is diverse in age and appearance, with some wearing hats and jackets. The atmosphere appears to be busy and focused on the livestock being shown.

2.1 Deall sut i ddewis tarw

Nid oes modd dewis anifeiliaid bridio uwchraddol â'r llygad yn unig. Bydd dewis yn seiliedig ar eneteg ynghyd ag asesu iechyd a chydffurfiad â'r llygad yn arwain at brynu teirw a fydd yn gwneud y fuches yn fwy cynhyrchiol a phroffidiol.

Gofynnwyd i'r rhai fu'n cymryd rhan yn WBQIP i flaenoriaethu chwe nodwedd sydd yn eu barn nhw yn dylanwadu ar brisiau'r farchnad (Ffigur 2). Roedd yn amlwg fod y nodweddion a ddewiswyd fel y rhai pwysicaf yn nodweddion sy'n cael eu dylanwadu'n fawr gan eneteg, h.y. twf a chydffurfiad. Fel canlyniad, gall dewis y tarw cywir gael effaith bwysig ar gynhyrchedd a phroffidioldeb y lloi sy'n cael eu cynhyrchu.


Ffigur 2. Beth sy'n dylanwadu ar brisiau da byw yn y farchnad?



Pa mor bwysig yw geneteg i'r cynhyrchwr yng Nghymru?

Mae Ffigur 3 yn dangos y canlyniadau pan ofynnwyd i ffermwyr am yr ystyriaeth bwysicaf wrth ddewis tarw newydd. Ystyrir taw geneteg y tarw a'i ymarferoldeb yw'r nodweddion pwysicaf wrth i ffermwyr Cymru ddewis tarw. Mae'r angen am loi sy'n cael ei geni'n rhwydd, yn tyfu'n gyflym ac â siâp da yn cael ei gydnabod, ond yn aml mae dehongliad geneteg yn cael ei gamddeall. Am fod llai o ddwylo ar ffermydd, mae'n hollbwysig cael gwartheg y gellir eu rheoli'n rhwydd ac mae'n hanfodol dewis teirw â thymmer da.

Ffigur 3. Beth ydych yn ystyried wrth ddewis tarw newydd?



Dewis y Tarw Cywir

Mae system gynhwysfawr a chywir ar gael i asesu rhinweddau genetig anifeiliaid sy'n defnyddio cofnodion pedigri a masnachol, a chyflwynir y canlyniadau fel Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBVau). Caiff rhai EBVau eu pwysoli hefyd yn ôl gwerth economaidd i ffurfio mynegrifau. Mae'r mynegrif fel arfer yn rhoi rhinwedd gyffredinol yr anifail, ond mae'r EBV yn rhoi'r union fanylyn a all helpu ffermwyr wrth iddynt wneud eu dewis terfynol.

Cynhyrchir EBVau yn y DG ar gyfer yr holl fridiau gan naill ai Beefbreeder (Gwasanaethau Bridio Signet) neu Breedplan (ABRI).

Safbwynt cynhyrchwr

Roedd Eric Land o Landdeiniolen yn ymwybodol o EBVau ond roedd cyrsiau hyfforddi y cynllyn o werth amhrisiadwy iddo er mwyn eu deall yn well. Bellach mae'n sylweddoli'r angen i ystyried cydbwysedd cywir EBVau. Wrth gofnodi perfformiad ei loi mae eisoes yn gweld manteision y tarw yn yr 1% uchaf a brynwyd gyda chymorth WBQIP.


Mae rhagor o wybodaeth am EBVau yn y Llawlyfr Prynu Tarw sydd ar gael gan HCC.

2.2 Y tarw terfynol

Mae dewis y teirw cywir i fod yn deirw terfynol yn hollbwysig i unrhyw raglen bridio cig eidion. Nododd bridwyr Cymru taw lloia a thwf 400 niwrnod yw'r EBVau hanfodol ar gyfer system cynhyrchu gwartheg sugno er mwyn pesgi lloi (Ffigur 4). Fodd bynnag, ni ddylid anghofio bod gwartheg yn cael eu cynhyrchu ar gyfer marchnad derfynol a dylid rhoi ystyriaeth hefyd i EBVau ar gyfer cyhyredd - a braster o bosibl.

Mae'n debygol y bydd gan gynhyrchwyr feini prawf ychydig yn wahanol wrth brynu tarw, gan ddibynnu a yw ei epil yn cael eu gwerthu fel anifeiliaid stôr neu wedi'u pesgi. Yr hyn sy'n hanfodol yn y naill achos a'r llall yw bod rhaid i'r tarw gynhyrchu lloi sy'n cael eu geni'n rhwydd. Gall lloi mawr a chyfnod cyfebru hir wneud lloia'n anos a gall olygu buchod a lloi marw neu wedi'u hanafu. Hefyd, gall anawsterau lloia effeithio ar allu'r fuwch honno i fod yn gyflo eto a bydd hynny yn ei dro'n effeithio ar broffidioldeb am na fydd y buchod yn lloia'n rheolaidd yn flynyddol.

Ffigur 4. Nodweddion hanfodol wrth fridio gwartheg i'w pesgi



Mae'r canrannau'n dangos cyfran y ffermwyr ar gwrs hyfforddi a oedd o'r farn taw'r ffactor hwnnw oedd y pwysicaf.

Dewis y Tarw Cywir

Mae teirw'n cael eu prynu i bwrpas a rhai o'r cwestiynau y mae'n rhaid i brynwr tarw terfynol eu gofyn cyn prynu tarw newydd yw:

A oes angen tarw arnaf i wella cyfraddau twf fy lloi?

A oes angen tarw arnaf i sicrhau pesgi cyflymach?

A oes angen tarw arnaf i gael carcassau trymach cyn i wartheg fynd yn rhy dew?

Mae Tabl 1 yn rhestru rhai o'r EBVau pwysicaf ar gyfer teirw terfynol.

Tabl 1. EBVau ar gyfer Teirw Terfynol

Cynhyrchwr Gwartheg Sugno		Cynhyrchwr Gwartheg Godro	
Gwerthu lloi sugno	Pesgi gwartheg	Gwerthu lloi	Pesgi gwartheg
Rhwyddineb lloia	Rhwyddineb lloia	Hyd y cyfnod cyfebru	Hyd y cyfnod cyfebru
Pwysau geni	Pwysau geni	Rhwyddineb lloia	Rhwyddineb lloia
Twf 200 niwrnod	Twf 400 niwrnod	Pwysau geni	Pwysau geni
Trwch/arwynebedd cyhyrau	Trwch/arwynebedd cyhyrau		Trwch/arwynebedd cyhyrau
	Trwch braster		

Os yw tarw terfynol yn cael ei ddefnyddio ar heffrod, rhaid ystyried yr EBVau ar gyfer hyd y cyfnod cyfebru a'r pwysau adeg geni.

Safbwynt cynhyrchwr


Mae John Owen, Pennant, yn gwerthu gwartheg wedi'u pesgi ac roedd am weld rhagor â'r graddau gorau. Bu WBQIP yn ei helpu i brynu tarw Aberdeen Angus yn y 1% uchaf. Roedd eisoes yn ymwybodol o ddylanwad EBVau ar fusnesau fferm yn Awstralia a Seland Newydd ac roedd yn awyddus i fabwysiadu'r un dulliau gartref.

Bydd y dewis tarw'n dibynnu hefyd ar y math o fowch ar y fferm. Er enghraifft, bydd buwch fach â chydffurfiad da yn manteisio ar darw a ddewiswyd ar sail nodweddion twf yn hytrach na nodweddion cyhyrau.

Os yw'ch fferm yn canolbwyntio ar gynhyrchu gwartheg i'w gwerthu fel anifeiliaid stôr, yna bydd yr EBV twf 400 niwrnod ynghyd â'r EBVau ar gyfer cyhyrau a braster yn eich helpu i gael y canlyniadau gorau posibl ohonynt.

Safbwynt cynhyrchwr

Mae Terrig Morgan o'r Wyddgrug yn cadw 130 o fuchod godro ac yn defnyddio teirw potel Holstein Friesian ar ei fuchod gorau. Bydd y tarw cig eidion uwchraddol a brynwyd trwy'r cynllun yn cynyddu gwerth ei loi croesfrid ac yn hybu cyfanswm yr incwm o'r uned. Bydd y sawl sy'n pesgi'r lloi hyn yntau'n manteisio ar gynnyrch uwchraddol.




2.3 Y tarw mamol

Yn gynyddol, mae cynhyrchwyr yn 'cau' eu buches ac yn bridio eu hanifeiliaid amnewid eu hunain. Mae hyn yn help i osgoi problemau iechyd ac yn gwella ansawdd y fuwch sy'n bridio a'i hepil. Bydd y tarw sy'n cael ei ddefnyddio nawr yn cael effaith a fydd yn para am sawl blwyddyn a rhaid i brynwyr gael tarw â'r cydbwysedd cywir o EBVau mamol i ateb eu gofynion.

Gofynnwyd i ffermwyr yng Nghymru pa EBVau mamol sydd, yn eu barn nhw, o bwys wrth;


- cynhyrchu anifeiliaid cig eidion croesfrid o fuches laeth (Ffigur 5)
- gwerthu anifeiliaid stôr ond cadw eu heffrod amnewid eu hunain o fuches sugno (Ffigur 6).

Ffigur 5. Nodweddion pwysig i anifeiliaid croesfrid cig eidion o'r fuches odro



Mae'r canrannau'n dangos cyfran y ffermwyr ar gwrs hyfforddi a oedd o'r farn tarw'r nodwedd honno oedd y bwysicaf.

Ffigur 6. Nodweddion pwysig ar gyfer anifeiliaid stôr a heffrod amnewid o'r fuches sugno



Mae'r canrannau'n dangos cyfran y ffermwyr ar gwrs hyfforddi a oedd o'r farn tarw'r nodwedd honno oedd y bwysicaf.

Dewis y Tarw Cywir

Problem gyffredin ymhlith gwartheg sugno'r dyddiau hyn yw tuedd i fod yn rhy fawr. Er bod hyn o fantais wrth werthu buwch ar ddiwedd ei bywyd defnyddiol, mae'n debygol o fod wedi bwyta mwy o borthiant a phorfwyd – sy'n golygu ei bod yn ddrutach na buwch fach. Felly, mae dewis y tarw cywir i fridio anifeiliaid amnewid yn hollbwysig. Dylech fod yn ofalus os ydych chi'n dewis EBVau uwch ar gyfer twf 400 niwrnod er mwyn cynyddu maint y lloi gwryw oherwydd bydd hyn yn arwain at fuchod sugno sy'n mynd yn fwy drwy'r amser.

Bydd y fuwch sugno ddelfrydol o faint cymedrol, bydd yn lloia'n rhwydd ac yn gyson, bydd yn dod yn gyflo eto'n gyflym, bydd yn godro'n dda a bydd ganddi loi o ansawdd da sy'n tyfu'n dda o'r eiliad y cânt eu geni.

Wrth ddewis, dylid cofio bod rhaid cael cydbwysedd cyffredinol da o EBVau. Hynny yw, os ydych chi'n dewis tarw ag EBVau llaeth yn y 10% uchaf, rhaid i chi wneud yn siŵr nad yw'r tarw'n is na'r cyffredin o ran EBVau pwysig eraill.

Safbwynt cynhyrchwr

Roedd Gwion Owen o Ruthun wrth ei fodd pan ddarganfu bod prynu tarw trwy ddefnyddio ffigurau'n golygu nad oes raid dyfalu bellach. Mae'n uwchraddio'i fuches ac yn chwilio am EBVau ar gyfer rhwyddineb lloia a nodweddion mamol yn y tarw. Bydd yr heffrod sy'n cael eu geni'n mynd at darw arall â ffigurau perfformiad da fel bod yr epil yn pesgi'n gyflym, yn defnyddio llai o borthiant ac yn rhatach eu cadw. Mae epil ei darw uwchraddol eisoes yn cyflawni'n well nag epil ei darw sydd heb gofnodion.



Bydd bridio lloi sy'n geni'n rhwydd heb fod â chyfnodau cyfebru estynedig ac sydd â chyfnodau lloia byr yn cael dylanwad pwysig ar ochr ariannol cynhyrchu lloi sugno.

Wrth ddewis tarw i gynhyrchu anifeiliaid benyw amnewid, bydd y cwestiynau a ganlyn y cael eu gofyn yn fynych;

Wrth fridio f'anifeiliaid amnewid fy hun, a allaf brynu tarw sydd hefyd yn cynhyrchu bustych â siâp da i'w gwerthu?

Sut ydw i'n cael hyd i darw y mae ei ferched yn lloia'n ddwy flwydd oed?

A oes angen tarw arnaf i leihau maint fy muchod llawn-dwf?

Gwerth mamol yw'r EBV sy'n nodi gwerth ariannol cyffredinol anifail o ran ei allu genynnol i gynhyrchu anifeiliaid benyw ar gyfer bridio. Rhestrir nodweddion mamol yn Nhabl 2.

Tabl 2 Nodweddion Mamol Allweddol

Llaeth 200 niwrnod	Pwysau diddyfnu mamol
Hyd y cyfnod cyfebru	Rhwyddineb lloia mamol neu ferched rhwyddineb lloia
Oed lloia cyntaf	Pwysau'r fuwch = Gwerth cynnal a chadw
Hirhoedledd	Maint y sgrotwm
Ysbaid lloia	

2.4 Defnyddio marcwyr genynnau wrth ddewis

2.4.1 Beth yw marcwyr genynnau?

Mae yna nifer o brofion marcwyr genynnau ar gael yn fasnachol erbyn hyn, a gall y rhain brofi teip yr anifail ar gyfer nodweddion megis breuder cig, lefel y marmoredd mewn cig ac effeithlonrwydd porthiant. Bydd profion marcwyr genynnau'n esbonio peth o'r amrywiad genynnol ar gyfer y nodweddion hyn ac yn helpu i ragweld perfformiad anifail trwy brofi ar gyfer marcwyr DNA sy'n effeithio ar y nodweddion hynny. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol er mwyn adnabod anifeiliaid â nodweddion nad ydynt fel arall yn rhwydd eu gweld neu fesur.

2.4.2 Sut mae profi ar gyfer marcwyr genynnau?

Mae modd defnyddio unrhyw ran o anifail y gellir tynnu DNA ohoni ar gyfer profi DNA. Samplau o flew a ddefnyddir fel arfer, ond mae modd defnyddio semen, meinwe a gwaed yn ogystal. Bydd y samplau'n rhoi'r un canlyniad waeth beth yw oed yr anifail oherwydd nid yw DNA yn newid. Mae hyn yn caniatáu ffermwyr i wneud penderfyniadau ynglŷn â dewis pan fo'r anifeiliaid yn dal yn ifanc.

2.4.3 Beth yw ystyr y canlyniadau?

Bydd anifail yn etifeddu copi o bob marciwr gan bob un o'i rieni ac felly mae'r canlyniadau'n adlewyrchu nifer y marcwyr positif sy'n bresennol ar gyfer pob nodwedd. Po fwyaf o farcwyr sydd gan anifail ar gyfer nodwedd, y gorau y mae'r anifail yn debygol o berfformio ar gyfer y nodwedd honno. Er enghraifft, po fwyaf o farcwyr positif sydd gan yr anifail am freuder, y mwyaf brau (neu lai gwydn) y mae'r cig o'r anifail hwnnw'n debygol o fod.

2.4.4 Sut gall ffermwyr fanteisio trwy ddefnyddio marcwyr genynnau?

Nid yw profion marcwyr genynnau'n disodli'r angen am y maeth a'r rheolaeth orau i wartheg er mwyn iddynt wireddu eu potensial genynnol, ond maent yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â geneteg yr anifail er mwyn helpu i ddiol a dewis anifeiliaid ar gyfer bridio.

Dewis y Tarw Cywir

Mae nodweddion megis effeithlonrwydd porthiant o bwysigrwydd economaidd i holl sectorau'r diwydiant cig eidion. Gall y nodwedd honno, er enghraifft, ddynodi anifeiliaid a fydd yn bwyta llai na'u cyfoedion ond yn perfformio cystal o ran cynnydd pwysau. Felly, mae modd bod dipyn yn fwy effeithlon yn y systemau pori a phesgi trwy ddewis a/neu ddifa anifeiliaid yn unol â chanlyniadau eu marcwyr genynnau ar gyfer effeithlonrwydd porthiant.

Dylai ffermwyr geisio dewis a bridio i gael anifeiliaid â mwy o gopiâu o'r genynnau pwysig. Er enghraifft, wrth ddewis tarw, dylai ffermwr chwilio am darw sydd â dau gopi positif (cydryw) o bob marciwr er mwyn gwneud yn siŵr fod un copi'n cael ei drosglwyddo i'w epil bob tro.

Bydd ymchwil pellach yn ychwanegu at nifer y marcwyr genynnau y gellir gwneud profion ar eu cyfer a bydd potensial hefyd ar gyfer cynnwys y canlyniadau marcwyr yng ngwerthoedd bridio'r anifail. Mae hyn yn golygu y bydd bridwyr pedigri a masnachol yn gallu gwneud penderfyniadau mwy cywir ynglŷn â'r nodweddion ychwanegol hyn pan fyddant yn dewis anifeiliaid ar gyfer bridio.

Safbwynt cynhyrchwr

Mae Colin Evans, Gwartheg Duon Cymreig Moel Rhuddel, yn gynhyrchwr cig eidion yng Nghymru sydd eisoes yn defnyddio technoleg marcwyr genynnau. Yn ddiweddar, profodd Colin ei holl deirw stoc ac anifeiliaid benyw pedigri a bydd yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â bridio a dewis. Bydd anifeiliaid unigol yn cael eu hasesu yn ôl eu canlyniadau marcwyr genynnau, eu perfformiad presennol yn y fuches, yn ogystal â'u teip, cydffurfiad, natur, rhinweddau mamol a chaledwch. Meddai Colin, "Breuder y cig yw'r ffactor pwysicaf sy'n cyfrannu at fodlonrwydd y defnyddiwr yn y diwydiant cig eidion ac mae profion DNA yn golygu fy mod yn gallu bridio anifeiliaid â chig mwy brau."

Fel canlyniad i'r profion marcwyr genynnau, bydd Colin nawr yn gwneud yn siŵr fod unrhyw darw sy'n cael ei brynu â chanlyniadau gwell na'r cyfartaledd ar gyfer marmoredd, breuder ac effeithlonrwydd porthiant er mwyn sicrhau y gall barhau i wneud y cynnydd genynnol y mae'n ei ddymuno ar gyfer y nodweddion hyn.



2.5 Tarw go iawn neu darw potel?

Mae'n hysbys fod y prif sefydliadau semenu artiffisial sy'n gweithredu yn y DG yn defnyddio teirw ag EBVau da. Pe bai'r rhain yn cael eu defnyddio ledled y DG, ceid gwelliant cyflym o ran rhinweddau genetig. Fodd bynnag, mae yna ffactorau gwaith a rheoli sy'n golygu taw tarw go iawn sydd fwyaf addas i'r rhan fwyaf o ffermwyr Cymru.

Er bod llawer o gynhyrchwyr yn defnyddio tarw potel yn llwyddiannus, gall fod yn anodd ei reoli, yn enwedig pan fo'r gwartheg yn pori, oherwydd mae'n anodd gwybod a yw buwch yn gofyn tarw ac mae dod â buwch i mewn i adeilad ar gyfer semenu yn llafurus. Dangosodd arolwg a wnaed gan HCC¹ fod 33% o fuchesi'n defnyddio tarw potel er taw dim ond 7% o fuchod a oedd yn cael tarw potel.

Yn Nhabl 3, rhestrir ymatebion 650 o ffermwyr yng Nghymru ynglŷn â rhinweddau cymharol tarw a semenu artiffisial. Roedd y rhan fwyaf yn rhestru darganfod a yw buwch yn gofyn tarw a'r gwaith y mae semenu artiffisial yn ei olygu fel y prif anfanteision, ond roedd pawb yn cytuno fod defnyddio tarw potel yn gyfle i gael geneteg uwchraddol. Mae modd defnyddio tarw potel yn ddethol mewn buches bedigri neu fasnachol er mwyn mynd i'r afael ag amcanion penodol ac mae'n caniatáu prynu geneteg a fyddai fel arall yn rhy ddrud i lawer o gynhyrchwyr. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o fuchesi'n dal i ddefnyddio tarw go iawn am fod hynny'n hwylus a dibynadwy.

Tabl 3. Tarw go iawn neu darw potel?

Tarw go iawn	Semenu Artiffisial
Hwylus	Gwell rhinweddau genetig ar gost fforddiadwy
Yn gwybod pryd mae buwch yn gofyn tarw	Dim perygl o gael anifail anffrwythlon
Arbed gwaith	Dim perygl clefydau
Llai o drafod	Cyfnod lloia penodol
Semenu ar yr adeg iawn	Dim angen cadw tarw am 365 diwrnod
Yn gallu rheoli buchod anhydrin	Ei ddefnyddio i fridio anifeiliaid amnewid



2.6 Safbwynt cynhyrchwr cig eidion o Gymru

Mae Wyn Williams yn gynhyrchwyr â buches sugno fawr. Maent yn ffermio 156 hectar ger Caergybi, Ynys Môn, ac yn tyfu 24 hectar o farlys neu geirch, gan gadw gweddill y tir ar gyfer porfa.

Fel canlyniad i newid polisi yn 2007, gwerthwyd 1600 o famogiaid, ac ildwyd 121 hectar o dir pori a oedd yn cael ei rentu. Golygodd hyn fod angen un uned lafur yn llai.

Eu nod yw cynyddu'r fuches sugno o'r 220 o fuchod sydd ynddi ar hyn o bryd i 250 o fuchod yn ystod y 2-3 blynedd nesaf.

O fewn y fuches sugno, mae nifer y buchod Holstein o groesiad cyntaf yn cael ei leihau'n raddol o blaid cael buchod o deip cig eidion. Mae 25 o anifeiliaid amnewid yn cael eu prynu bob blwyddyn ac mae rhai heffrod cartref yn cael eu cadw. Mae llygad manwl yn cael ei gadw ar yr heffrod sydd â chyfran gynyddol o waed cig eidion er mwyn peidio ag amharu ar ffrwythlondeb a rhwyddineb lloia.

Cedwir y buchod sugno dros y gaeaf ar dir tywodlyd ac maent yn lloia yn yr awyr agored o 1af Ebrill. Ar hyn o bryd mae dros 90% o'r anifeiliaid benyw'n lloia erbyn diwedd Mehefin, sy'n golygu bod y cyfnod lloia oddeutu 13 wythnos o hyd. Y bwriad yw tynhau'r cyfnod lloia fwyfwy, gan anelu at 10 wythnos.

Caiff y lloi eu diddyfnu ym mis Ionawr a'u gwerthu'n bennaf yn flwydd oed, ar ôl bod dan do am dri mis yn unig. Ar hyn o bryd mae gan y fferm bum tarw stoc a defnyddir tarw potel hefyd ar rai buchod. Yn dilyn cwrs WBQIP, cafodd y polisi prynu teirw ei newid ac mae mwy o bwyslais ar ddewis teirw priodol i ateb gofynion y fferm.

Mynychodd Wyn un o'r cyrsiau WBQIP cyntaf, ac mae eisoes yn gweithredu'r egwyddorion a ddysgodd. Er bod ganddo amheuan i ddechrau ynglŷn â chael gwersi ar sut i brynu tarw, darganfu:

1. Er ei fod yn ymwybodol o EBVau, nid oedd ganddo wybodaeth gynhwysfawr amdanynt ac mae'r cwrs wedi gwella ei wybodaeth a'i allu i'w defnyddio;
2. Bellach bydd yn gwerthuso'r teirw ar bapur cyn eu prynu mewn arwerthiant;
3. Erbyn hyn mae'n prynu trwy ddefnyddio EBVau ynghyd ag asesu iechyd a theip â'r llygad;
4. Gellid gwella elw net y fferm trwy wella'r cyfraddau twf, cael gwell lloi a lloia haws;
5. Mae cofnodi perfformiad y lloi'n hanfodol ar gyfer llwyddiant.

Defnyddiwyd y cymorth grant a oedd ar gael i brynu tarw Limousin a phenderfynodd Wyn fod yn rhaid rhoi blaenoriaeth uchel i rwyddineb lloia ar gyfer y tarw i'w ddefnyddio ar yr heffrod. Cafodd y lloi cyntaf eu geni'n rhwydd ac mae hyn wedi cyfiawnhau ei benderfyniad.

Dywed Wyn y bydd yn dal i werthuso ffyrdd o wella'i system sugno trwy fabwysiadu arferion da i'w gwneud yn fwy cynaladwy.



Herd Fertility – a Key Factor

3.1 Y pum egwyddor allweddol i wella ffrwythlondeb

- Rheolaeth dda i heffrod sy'n gofyn tarw
- Sicrhau iachusrwydd a ffrwythlondeb teirw
- Rheoli cyflwr a maeth y fuwch yn gywir
- Osgoi lloia anodd
- Cynnal iechyd y fuches (adran 4)

3.1.1 Rheolaeth dda i heffrod sy'n gofyn tarw

Pwyntiau allweddol

- Mae aeddfedrwydd rhywiol yn berthynol i **bwysau** yn hytrach nag oed
- Gwnewch yn siŵr fod heffrod wedi cyrraedd eu pwysau targed ar gyfer cael tarw (Tabl 4)
- Mae heffrod sy'n cael eu geni'n gynharach yn y cyfnod lloia'n debygol o fod yn drymach adeg cael tarw
- Mae heffrod a ddewisir ar gyfer nodweddion mamol yn tueddu i fod yn fwy ffrwythlon nag eraill
- Mae bridiau sy'n cyrraedd llawn dwf yn gynnwys yn cyrraedd aeddfedrwydd rhywiol pan maent yn ysgafnach na bridiau sy'n cyrraedd llawn dwf yn hwyrach
- Cyrhaeddir pwysau llawn dwf tua 5 neu 6 blwydd oed.
- Cyfnod cyplu cryno i'r heffrod oherwydd bydd ganddynt gyfnod cyplu cryno wedyn pan fyddant yn fuchod
- Rheolwch y rhai sy'n lloia am y tro cyntaf a'r eildro ar wahân i'r brif fuches er mwyn atal bwlio

Tabl 4 Pwysau targed i heffrod sy'n cael tarw

Pwysau'r fuwch kg	targedau fel % o bwysau aeddfedrwydd		
	Parau cyntaf	Ail baru	Trydydd paru
	65%	85%	95%
600	390	510	570
700	455	595	665

Hwyrach y bydd heffrod sy'n ysgafnach na'r pwysau targed ar gyfer cael tarw yn mynd yn gyflo'n rhwydd y tro cyntaf, ond mae'n debygol y byddant yn ei chael hi'n anodd mynd yn gyflo ar gyfer eu hail lo. Y rheswm am hyn yw eu bod yn gorfod magu llo, tyfu ffrâm, a chynnal cyflwr corff.

- Mae angen i heffrod ennill cyfartaledd o 0.85 -1.0kg y dydd o bwysau byw o'r dydd y cânt eu geni.
- Mae angen rheoli'r anifeiliaid sy'n lloia am y tro cyntaf a'r eildro ar wahân ar y borfa ac o dan do, er mwyn iddynt gyrraedd y pwysau targed ar gyfer cael tarw.
- Mae'n reddfod i'r fuwch roi blaenoriaeth i ofalu am ei llo, a hynny ar draul cyflwr ei chorff ei hun.

Yn aml, bydd yr anifeiliaid sy'n lloia am y tro cyntaf yn cymryd hyd at 20 diwrnod yn hirach ar ôl lloia cyn gofyn tarw, mewn cymhariaeth â buchod llawn dwf. Er mwyn osgoi cyfnod lloia estynedig yn y dyfodol, gellir rhoi tarw i heffrod dair wythnos cyn y brif fuches fuchod.

Ffrwythlondeb y Fuches – Ffactor Allweddol

Mae gan ffrwythlondeb y buchod ddylanwad pwysig ar berfformiad ariannol buches sugno. Dangosodd arolwg gan HCC yn 2006¹ fod yna amrediad eang o ran perfformiad ffrwythlondeb y fuches a oedd yn dangos fod systemau rheoli gwahanol yn cael effaith ar ffrwythlondeb y fuches. Mae'r bennod hon yn amlinellu meysydd allweddol y dylid rhoi sylw iddynt er mwyn cael y perfformiad gorau posibl gan eich anifeiliaid.

3.2 Meincnodi ffrwythlondeb y fuches

Dim ond ychydig o ffermwyr all ddarparu gwybodaeth am ffrwythlondeb y fuches, ond mae gwybodaeth o'r fath yn hanfodol er mwyn monitro perfformiad y fuches.

Tabl 5 Meincnodi ffrwythlondeb - enghraifft

Lloia Gwanwyn 2007		cyfunol		Targed
Ffrwythlondeb y buchod/heffrod		Nifer	%	%
Buchod/heffrod yn cael tarw		120		
Buchod/heffrod yn lloia (ffrwythlondeb y fuches)		110	91.7	95%
Buchod/heffrod hysb (cyfradd hesb)		8	6.7	5%
Buchod/heffrod yn erthylu		2	1.7	
Buchod/heffrod yn marw		1	0.8	
Buchod cyflo a gafodd eu difa		0	0.0	
Lloi a ddiddefnyd/buchod a gafodd darw		106	88.3	94%
Patrwm lloia buchod/heffrod	Cyfnod lloia	Nifer	%	%
Buchod/heffrod yn lloia – cylchred gyntaf	3 wythnos	49	44.5	65%
Buchod/heffrod yn lloia – ail gylchred	6 wythnos	35	31.8	25%
Buchod/heffrod yn lloia – trydedd gylchred	9 wythnos	14	12.7	7%
Buchod/heffrod yn lloia – pedwaredd gylchred	12 wythnos	7	6.4	3%
Buchod/heffrod yn lloia – pumed gylchred	15 wythnos	5	4.5	
Buchod/heffrod yn lloia'n ddiweddarach		0	0.0	
Cyfanswm yn Lloia		110		
Perfformiad y fuches		Nifer	%	%
Buchod/heffrod â lloi marw-anedig*		2		
Gefeilliaid yn cael eu geni (gefeilliaid byw yn unig)		4		
Cyfanswm y lloi a anwyd yn fyw		112		
Lloi marw (rhwng eu geni a 48 awr)		4	3.6	2%
Lloi marw (48 awr - diddychu)		2	1.8	cyfunol
Lloi wedi'u diddychu/ lloi wedi'u geni'n fyw		106	94.6	96%

* Ac eithrio buchod a erthylodd Ffynhonnell: Coleg Amaethyddol yr Alban

Ffrwythlondeb y Fuches – Ffactor Allweddol

Er mwyn gallu darganfod achos problemau'n well, dylid rhannu buchesi'n fuchod a heffrod. Hefyd, mae angen rhoi ystyriaeth ar wahân i fuchesi sy'n lloia dros gyfnodau gwahanol. Mae Tabl 5 yn dangos enghraifft o adroddiad, lle mae gwir ffigurau'r fuches yn cael eu cymharu â ffigurau targed. Cafodd data buchod a heffrod ei gyfuno yn yr achos hwn. Trwy gasglu data fel hyn, gall ffermwyr weld ar unwaith sut mae eu buches yn perfformio a gallant ddarganfod pa agweddau sydd angen eu gwella.

Beth mae'r wybodaeth yn Nhabl 5 yn dweud wrthyf?

Yn yr achos hwn, mae **ffrwythlondeb y fuches yn 91.7%** mewn cymhariaeth â'r targed o 95%. Mae ffrwythlondeb y fuches yn hollbwysig o ran llwyddiant buches – mae ffrwythlondeb gwael yn golygu diffyg lloi neu broffiliau bridio anwadal.

Mae'r **gyfradd hesb** yn uwch na'r ffigur targed (6.7% v 5%) – dylid ymchwilio i'r rhesymau a dylid ymgynghori â'r milfeddyg.

Mae'r **lloi a ddiddyfnwyd/buchod a gafodd darw** yn 88.3% mewn cymhariaeth â'r targed o 94%. Mae gan loi sy'n cael eu diddyfnu a'u gwerthu gysylltiad agos ag elw. Mae'n hanfodol darganfod y rhesymau pam fod proffidioldeb yn is.

Yn ogystal, mae'r 44.5% o **fuchod sy'n lloia o'r gylchred gyntaf** yn is o lawer na'r targed o 65% - ai'r tarw yw'r broblem?

Mae'r **cyfnod lloia** yn 15 wythnos ar gyfer y fuches gyfan. Y cyfnod delfrydol yw 10 wythnos. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella ffrwythlondeb y fuches ac mae'r ffigur hwn yn debygol o wella.

Mae canran y **lloi sy'n marw** yn uchel (3.6% v 2%). Ai clefydau, neu'r tarw sy'n peri lloia anodd?

Ystyrir bod meincnodi o fewn diwydiant Cig Eidion Cymru yn hanfodol. Rhaid cynnal cryfderau'r system gynhyrchu a chael hyd i unrhyw wendidau fel y gellir cael cynnydd parhaus. Heb wybodaeth sylfaenol megis yr hyn a nodir uchod, bydd yn anodd cynyddu cynhyrchedd a phroffidioldeb.



Ffrwythlondeb y Fuches – Ffactor Allweddol

3.2.2 Iachusrwydd a ffrwythlondeb y tarw

Er mwyn i darw fod yn effeithiol wrth ei waith mae gofyn iddo fod yn gallu:

- Cynhyrchu semen hyfyw (cyfrif sberm a symudiad)
- Adnabod pan fo buwch yn gofyn tarw (libido)
- Yn gallu gweithio (yn gorfforol gywir)

Ansawdd y sberm yw'r unig un na all y ffermwr ei fonitro felly fe all prawf ffrwythlondeb gan y milfeddyg fod yn ddefnyddiol.

Tabl 6 Amserlen archwilio teirw

Amserlen archwilio teirw	
Dau neu dri mis cyn cyplu	Gwnewch yn siŵr fod yr holl deirw'n hollriach, gan gynnwys eu traed a'u coesau
Un mis cyn cyplu	Milfeddyg yn archwilio'r teirw ar gyfer iachusrwydd
Y diwrnodau bridio cyntaf	Cadw llygad manwl ar y teirw er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cyplu'n iawn

3.2.3 Rheoli cyflwr a maeth y fuwch

Pwyntiau allweddol


- Cyflwr gwael y corff yw un o'r prif resymau dros ffrwythlondeb gwael
- Rheolwch y buchod er mwyn iddynt gyrraedd y sgôr darged ar gyfer cyflwr corff adeg lloia
- Rheolwch fuchod tenau a'r rhai sy'n lloia am y tro cyntaf ar wahân
- Adolygwch ansawdd y porthiant a phorfwyd yn flynyddol (gweler cyfrifiannell maeth HCC www.hccmpw.org.uk)
- Yn anaml y bydd diffyg mwynau'n achosi anffrwythlondeb, ond mae angen ychwanegu mwynau penodol ambell dro.

Ffrwythlondeb y Fuches – Ffactor Allweddol


Rhaid rheoli cyflwr y fuchch drwy gydol y flwyddyn er mwyn cael y sgôr cyflwr darged. Nid oes modd sgorio cyflwr yn gywir â'r llygad, ac felly dylid trafod y buchod trwy ddefnyddio'r system sgorio 1-5.

Y sgoriau cyflwr lloia targed yw 2.5 ar gyfer buchod sy'n lloia yn y gwanwyn a 3.0 ar gyfer bychod sy'n lloia yn yr hydref (Ffigurau 7 ac 8).

Ffigur 7 Sgoriau Cyflwr Targed ar gyfer Anifeiliaid sy'n Lloia yn y Gwanwyn



Ffigur 8 Sgoriau Cyflwr Targed ar gyfer Anifeiliaid sy'n Lloia yn yr Hydref



Ffrwythlondeb y Fuches – Ffactor Allweddol

3.2.4 Osgoi lloia anodd

Mae lloia anodd yn cael effaith bwysig ar berfformiad y fuwch a'r llo yn y dyfodol:

- Y Fuwch – yn oedi cyn gofyn tarw eto, yn fwy tebygol o fod yn anffrwythlon ar ôl y cyplu nesaf, yn ymestyn y cyfnod lloia ac yn cynyddu'r gyfradd amnewid.
- Y Llo - gall olygu lloi marw. Mae lloia hir yn arwain at loi gwan sy'n methu sefyll i sugno colostrwm o'r fuwch. Mae lloi sy'n methu cael digon o golostrwm yn ystod 12 awr gyntaf eu bywydau'n fwy tueddol o gael clefydau.

Pwyntiau Allweddol

- Mae lloia anodd yn cynyddu colledion ymhlith y lloi ac yn gwneud y fuwch yn llai ffrwythlon
- Mae heffrod mewn mwy o berygl na buchod hŷn
- Defnyddiwch EBVau er mwyn lleihau'r risg o loia anodd
- Mae buchod sy'n rhy dew yn araf yn lloia ac mae'r lloia'n anos nag yw i fuchod â sgôr cyflwr targed – cadwch lygad ar y rhai sy'n lloia yn yr hydref
- Mae trafferthion lloia yn golygu llawer o waith
- Cofnodwch fuchod sy'n gorfod cael cymorth i loia a dylech ddifa'r rhain yn enwedig os ydynt yn cael cymorth fwy nag unwaith.



Ffrwythlondeb y Fuches – Ffactor Allweddol

3.3 Manteision ariannol gwell ffrwythlondeb

Mae Tabl 7 yn dangos effaith ariannol gwella ffrwythlondeb buches sy'n magu nifer nodweddiadol o 88 o loi ar gyfer pob 100 o fychod a heffrod sy'n cael tarw trwy:

- a) gwella'r ganran magu
- b) gwella'r pwysau adeg diddyfnu trwy gael cyfnod lloia tynn

Tabl 7: Effaith Gwella Ffrwythlondeb

	Perfformiad cyfredol	Gwella % magu fesul 6 llo	Gwella pwysau diddyfnu fesul 30kg
% y llo sy'n cael eu magu	88	94	94
pwysau cyf. y llo kg	285	285	315
p'sau cyf/llo/y fuwch kg*	251	268	296
pris cyfartalog. £/kg	1.4	1.4	1.4
Cynnyrch y fuwch	£351	£375	£414
Newid yn y cynnyrch		£24	£63
Newid ar gyfer buches â 100 o fuchod		£2,394	£6,288

* Pwysau'r lloia ddi-dddyfnwyd wedi'i rannu â nifer y buchod a heffrod a gafodd darw (yn cynnwys buchod hysb a buchod sydd wedi colli llo).

3.4 Manteision lloia dros gyfnod byr

Gall ffermwyr fanteisio mewn sawl ffordd os yw'r lloia dros gyfnod byr:

- Mae'r lloia sy'n cael eu geni'n gynnar yn y cyfnod lloia yn drymach adeg diddyfnu na lloia sy'n cael eu geni'n hwyrach
- Mae buchod sy'n lloia'n hwyr yn tueddu i gael eu gorfwydo ac mae hynny'n cynyddu'r risg o loia anodd
- Mae'n haws rheoli grwpiau mawr
- Mae clefydau'n llai tebygol o ymledu o'r lloia hyn i'r lloia iau sy'n fwy bregus
- Os oes mwy o fuchod yn gofyn tarw ar yr un pryd, maent yn dangos hynny'n fwy amlwg
- Mae lloia dros gyfnod byrrach yn golygu grwpiau mwy cyson o wartheg stôr a gwartheg pesgi
- Mwy o heffrod ar yr un pryd â phwysau addas ac yn barod i fynd i darw

3.5 Monitro marwolaethau lloi

Cyrraedd targedau cynhyrchedd yw'r her allweddol, ond unwaith y caiff y lloi eu geni mae'n hanfodol eu cadw'n rhydd o glefydau er mwyn hybu cyfraddau twf a chael cyn lleied o farwolaethau ag y bo modd. Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn dangos fod llawer o le i wella. Mae'r ffigur marwolaethau, a ddaw o ddata Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) (ffynhonnell: The RADAR Cattle Book 2006), yn dangos fod y gyfradd marwolaethau ymhlith lloi cig eidion yn ystod chwe mis cyntaf eu bywydau yn 1 o bob 13, sef ymron i 8%. Nid yw'r data'n cynnwys marwolaethau lloi ifainc iawn na chafodd eu cofrestru. Am law dyma'r cyfnod pa fo lloi'n fwyaf bregus, bydd y ffigur marwolaethau'n tangynrychioli nifer y marwolaethau ymhlith cyfoedion yn sylweddol.

Amcangyfrifir bod y gost gyfartalog flynyddol ar gyfer marwolaethau lloi yn £3600 am bob 100 o fuchod. Dengys canlyniadau arolwg yng Nghymru¹ fod 3% o'r lloi'n cael eu geni'n farw a bod 3.6% arall yn marw cyn cael eu diddyfnu (gydag amrediad o 0% i 20%). Mae 1.1% pellach yn marw ar ôl cael eu diddyfnu. Y prif resymau am y marwolaethau hyn oedd:

- a) adeg geni – anawsterau lloia a marw-enedigaethau
- b) rhwng geni a diddyfnu – ysgothi a niwmonia



Ffrwythlondeb y Fuches – Ffactor Allweddol



Y ddau beth pwysicaf o ran lleihau nifer y lloi sy'n marw yw:

- Rheoli cyflwr y fuwch er mwyn gwneud lloia'n haws fel bod lloi'n cael eu geni'n llawn egni ac yn cymryd colostrwm yn gyflym;
- Darparu amodau hylan i'r fuwch sy'n lloia ac i'r lloi ifainc er mwyn helpu i gadw heintiadau draw.

Er mwyn gwneud yn siŵr fod llai na 2% o'r lloi'n marw, dylid gweithredu system gofnodi syml a fydd yn caniatáu dadansoddi a mireinio'ch cynllun rheoli ac iechyd. Ymhlith y manylion pwysig i'w cynnwys mae:

- Oed y llo pan mae'n marw
- Rhwyddineb yr enedigaeth
- Pwysau adeg marwolaeth (i'r lloi sy'n marw yn ystod y deuddydd cyntaf))
- Oed y fam
- Manylion adnabod y tarw
- Achos marwolaeth/ diagnosis milfeddygol/ diagnosis labordy

Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn ag achos y farwolaeth, dylid cyflwyno'r carcass i'ch canolfan Asiantaeth Labordai Milfeddygol ar gyfer archwiliad post mortem.



Cynnal Buches Iach

Mae clefydau'n effeithio ar ffrwythlondeb, iechyd y lloi a hirhoedledd anifeiliaid bridio. Felly, mae cynllun iechyd effeithiol yn hanfodol ar gyfer unrhyw fuches gig eidion sy'n ceisio bod mor effeithlon ag y bo modd.

4.1 Clefydau Heintus

Mae yna ddau gategori pwysig o glefydau heintus.

Yn gyntaf, mae yna heintiadau sy'n gyfrifol am ysgoth lloi a niwmonia. Mae'r organebau sy'n achosi'r clefydau hyn i'w cael ymhlith unrhyw wartheg. Manteisiant ar y cyfle i achosi clefyd pan fo ffactorau eraill yn caniatáu hynny. Felly, pan fo lloi'n cael digon o golostrwm o ansawdd da ac mewn amgylchedd lle mae llawer o halogiad ysgarthol mae rotafirws, coronafirws a cryptosboridia yn debygol o achosi ysgothi. Yn yr un modd, os yw awyru yn gyfyngedig, gallai Firws Syncytiol Resbiradol (RSV), firws parainflwensa (Pi3) a sawl math gwahanol o facteria achosi niwmonia. Rheolir y clefydau hyn trwy fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n caniatáu'r clefyd a thrwy frechu rhag y cyfryngau pwysig. Felly, mewn buches â phroblem ysgothi, gall y bydd brechu rhag rotafirws yn fanteisiol. Mewn buchesi lle mae niwmonia'n digwydd, argymhellir brechu rhag RSV a Pi3.

Yn ail, ceir heintiadau sydd, pan gânt eu cyflwyno i fuches, yn dueddol o achosi clefyd nad oes a wnelo â'r hwsmonaeth. Yn aml bydd y rhain yn effeithio ar ffrwythlondeb a chânt eu lledaenu gan anifeiliaid heintiedig nad ydynt yn dangos unrhyw arwyddion o glefyd adeg eu prynu. I'r fuches fridio fasnachol, y clefyd pwysig yn y categori hwn yw Ysgothi Fiol (BVD), clefyd Johne, leptosbrosis a campylobacter. Rheolir y clefydau hyn gan raglen o fioddioelwch, monitro (cynlluniau iechyd) a brechu mewn rhai achosion.

4.2 Cost clefydau

Mae'n anodd cael hyd i ddata dibynadwy ynglŷn â chost ariannol y gwahanol glefydau. Mae'r clefydau a nodwyd yn effeithio ar ffrwythlondeb ac yn achosi marwolaethau ymhlith lloi. Rhoddir enghreifftiau o amcangyfrifon costau ar gyfer clefydau unigol yn Nhabl 8.

Tabl 8 Amcangyfrifom o Gost Clefydau

Clefyd	Colledion tybiedig	£ / 100 buwch y flwyddyn	£ y llo mewn perygl
BVD	Anffrwythlondeb, erthylu, clefyd mwcosaidd a cholledion cysylltiol	£2200	-
		13000	-
Clefyd Johne	O 2% i 5% o'r buchod sy'n cael eu difa bob blwyddyn	£1600	-
Campylobacter	20% o fuchod hysb	£5300	-
Ysgoth lloi	Costau triniaeth a marwolaethau	-	£33
Niwmonia mewn lloi	Costau triniaeth a marwolaethau	-	£21

cyf. G. Caldow, Procs. British Cattle Breeders Conference, 2004, tt 13-16)

I gael rhagor o wybodaeth am glefydau penodol mewn gwartheg, cysylltwch â HCC neu'ch milfeddyg.

4.3 Cynlluniau Iechyd a Threfniadau Iechyd

Mae cynlluniau iechyd wedi dod yn rhan anhepgor o reoli stoc ac maent yn caniatáu defnyddio gofal milfeddygol i anifeiliaid ar y fferm. Bydd y cynlluniau gorau'n defnyddio data cynhyrchu'r fferm i ddarganfod problemau y mae angen delio â nhw, ac yna gweithredu rhaglen reoli sy'n defnyddio'r wybodaeth honno. Maent hefyd yn caniatáu'r defnydd mwyaf cost-effeithiol o driniaethau rheolaidd. Er mwyn cael y gorau o gynllun iechyd dylid ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Yn y fuches gig eidion, dylid cynnal adolygiad adeg diddyfnu er mwyn gwerthuso perfformiad ac eto pan fo'r teirw'n cael eu harchwilio; bryd hynny, yn ogystal ag archwilio'r teirw, gellir adolygu'r perfformiad lloia.

Mae trefniadau iechyd yn ffordd gynlluniedig o reoli sawl clefyd heintus (Clefyd Johne, BVD, Rhinotracheitis Heintus y Gwartheg (IBR) a leptosbrosis). Maent yn darparu glasbrintiau rheoli clefydau er mwyn helpu i gael gwared ar glefydau. Yn bwysicach, fodd bynnag, maent yn darparu rhaglenni achredu i fuchesi sy'n cadarnhau statws iechyd buches ac yn caniatáu gwerthu anifeiliaid â statws achrededig i ddynodi eu bod yn rhydd o glefydau penodol. Maent yn seiliedig ar fioggiogelwch cadarn i gadw'r clefyd draw (gweler isod) a system o brofion i ddangos nad yw'r clefyd yn bresennol yn y fuches. Yn genedlaethol, mae yna sawl darparwr cynllun iechyd, ond dylai pob un fod yn aelod o'r Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg (CHeCS) a dylai logo CHeCS ymddangos ar bob tystysgrif buches fel prawf o achrediad.

4.4 Bioggiogelwch

Bydd amryw o glefydau heintus yn cael eu lledaenu trwy gysylltiad ag anifeiliaid sy'n gludwyr er eu bod yn ymddangos yn iach. Gall anifeiliaid yng nghyfnodau cynharaf heintiad hefyd ymddangos yn iach, ond yn datblygu arwyddion amlwg ar ôl diwrnod neu ddau – ac erbyn hynny byddant wedi heintio eich buches. Dylai anifeiliaid bridio ddod o fuchesi achrededig pryd bynnag y bo modd a dylid eu cadw ar wahân i anifeiliaid eraill am fis. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gellir profi'r anifeiliaid ar gyfer unrhyw glefyd sy'n briodol a'u cynnwys yn rhaglen frechu'r fuches. Hefyd, mae'n bwysig rheoli ffiniau'r fferm, lle gall anifeiliaid gyffwrdd ag anifeiliaid fferm gyfagos dros y ffens. Yn ogystal, mae modd lledaenu clefydau ar gyfarpar, gan bobl a phorthiant.

Dylai pob cynllun iechyd gynnwys modiwl bioggiogelwch er mwyn tynnu sylw at yr hyn sy'n fygythiad i statws clefydau'ch fferm. Mae Tabl 9 yn amlinellu graddau'r risg ar gyfer pob clefyd sy'n gysylltiedig â phrynu anifeiliaid newydd. Mae Tabl 10 yn dangos sut mae modd lledaenu clefyd unwaith y mae wedi cyrraedd eich fferm a hefyd yn dangos sut i geisio atal hyn.

Cynnal Buches Iach

Tabl 9 Canllawiau asesu risg ar gyfer polisiau amnewid cyffredin mewn perthynas â BVD, leptospirosis, campylobacter a chlefyd Johnne.

Polisiau amnewid cyffredin	Level of risk for each disease			
	BVD	Leptospirosis	Campylobacter	Johne's disease
Prynu heffrod gwasod sydd heb fagu o fuchesi achrededig	Isel	Isel	Isel	Isel
Prynu heffrod gwasod sydd heb fagu o fuchesi â statws anhysbys	Cymedrol	Cymedrol	Isel	Cymedrol
Prynu heffrod cyflo o fuchesi â statws anhysbys	Cymedrol i uchel	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol
Prynu buchod gyda lloi	Cymedrol i uchel	Cymedrol	Cymedrol	Cymedrol
Prynu teirw ifainc sydd heb gyplu o fuchesi achrededig	Isel	Isel	Isel	Isel
Prynu, hurio neu rannu teirw a gafodd eu defnyddio mewn buchesi eraill	Cymedrol	Cymedrol	Uchel	Cymedrol
Prynu llo (Y llo'n cael ei besgi yn hytrach na chael ei gadw ar gyfer bridio)	Uchel	Isel	Isel	Isel

Tabl 10 Canllawiau asesu risg ar gyfer ffiniau, cyfarpar, etc, mewn perthynas â chlefydau.

Ffactor	Risg	Clefydau	Gweithred
Ffiniau'r fferm	Cyffwrdd gerfydd y trwyn ag anifeiliaid eraill	BVD, IBR, TB	Ffin 3-metr neu gadw anifeiliaid bridio i ffwrdd o ffin y fferm Ystyriwch frechu ar gyfer BVD neu IBR
Cyfarpar a phersonél	Heintiad yn lledaenu ar ôl cysylltiad â gwartheg ar ffermydd eraill	BVD, IBR, Clefyd Johnne, Salmonelosis	Darparwch ddillad gwarchod ar wahân i ymwelwyr â risg uchel. Glanhewch a diheintiwch cyn i gyfarpar neu ymwelwyr ddod i gysylltiad â gwartheg
Porthiant a gwasarn	Halogiad oddi wrth fermin	Salmonelosis	Seliwch storfeydd porthiant os yw'n briodol
Nentydd yn llifo drwy'r fferm	Haint yn lledaenu o ffermydd i fyny'r nant	Clefyd Johnne, leptospirosis, salmonelosis	Ffensiwch ddŵr sy'n rhedeg ar gyfer anifeiliaid bridio



5.1 Cofnodi pwysau gwartheg masnachol

Dylai cynhyrchwyr cig eidion ofyn iddynt eu hunain “a ydw i'n rheoli fy ngwartheg neu a ydw i'n cael fy rheoli ganddyn nhw?” Mewn geiriau eraill, a yw'r anifeiliaid yn penderfynu pryd maent yn barod i'w lladd neu werthu neu a ydynt yn cael eu rheoli er mwyn gwneud yn siŵr nad ydynt yn treulio ond nifer benodol o fisoedd ar y fferm. Mae cynllunio nifer y diwrnodau yn ffordd dda o reoli gwartheg sy'n tyfu neu'n pesgi, ond nid yw'n ddefnyddiol ond os yw'n cael ei gysylltu â thargedau pwysau byw.

Pennwch darged o 600kg ar gyfer pwysau lladd i fustych 18 mis oed. Ar ôl pennu targed, yr her wedyn yw cyrraedd y targed. Mae hynny'n golygu bridio neu brynu'r gwartheg cywir, eu bwydo'n iawn a'u cadw'n iach. Pwysu rheolaidd yw'r ffordd orau o wybod a yw busnes ar y trywydd iawn. Gall dynnu sylw at broblemau yn ddigon cynnar i wneud newidiadau sy'n cael yr effaith fwyaf bosibl ar broffidioldeb.

Nid yw rhai cynhyrchwyr eto'n dadansoddi eu silwair ac maent bob amser yn bwydo'r un maint o rawnfwyd gyda'r silwair. Gan ddibynnu ar ansawdd y silwair, fe allai pwysau byw dros gyfnod o ddeufis amrywio cymaint â 50kg! Wrth bwysu gwartheg yn rheolaidd mae'n bosibl darganfod pryd mae angen gwella'r diet er mwyn osgoi gohirio'r dyddiad lladd, neu leihau'r pwysau lladd. Byddai'r naill a'r llall yn golygu llai o elw.

Mae pwysau'n talu waeth a yw cynhyrchwr yn gwerthu lloi sugno, anifeiliaid stôr neu wartheg wedi pesgi, ac felly mae'n gwneud synnwyr i reoli gwartheg fel eu bod yn tyfu'n well ac yn drymach adeg eu gwerthu. Ond sut mae modd gwneud hyn os nad yw'r pwysau'n cael ei fonitro? Mewn mis gall llo sy'n tyfu ennill unrhyw beth o sero i 45kg o bwysau byw ac ni fydd barnu â'r llygad byth yn rhoi asesiad cywir o'r cynnydd pwysau. Gall mynd â gwartheg drwy ddalfa bwysu am y tro cyntaf fod yn drafferthus, ond maent yn cyfarwyddo â hyn os yw'n digwydd yn rheolaidd.

Mae pwysu gwartheg hefyd yn ffordd o gynefino gwartheg â chael eu trafod a'u hasesu ar gyfer gorchudd braster.

Mae cofnodion pwysau 3,400 o wartheg trwy WBOIP (Prosiect Gwella Ansawdd Cig Eidion Cymru) yn dangos fod y gwartheg, ar gyfartaledd, yn ennill 1kg y dydd a bod y lloi'n perfformio orau hyd at 300 niwrnod oed. Bydd y cynnydd pwysau'n lleihau wrth i'r anifail fynd yn hŷn am fod y porthiant yn cael ei drosi'n llai effeithlon. Hefyd, mae'r canlyniadau'n dangos nad oedd y lloi trymaf adeg eu geni a gafodd eu tynnu â rhaffau neu gyfarpar tynnu yn gwneud cytal â'r lloi ysgafnaf nad oedd angen cymorth arnynt adeg eu geni.

5.2 Manteision didolborthiant

Mae diddyfnu gosod llo dan straen. Yn ogystal â chael eu gwahanu oddi wrth eu mamau, maent yn aml yn profi newid amgylchedd, porthiant gwahanol a chael eu rhoi dan do gyda lloi o grwpiau gwahanol.

Mae didolborthiant yn golygu nifer o fanteision:

- Pwysau trymach adeg diddyfnu;
- Llai o straen diddyfnu oherwydd mae'r porthiant yn gyfarwydd;
- Llai o niwmonia ar ôl cael eu rhoi dan do;
- Llai o effaith ar ennill pwysau adeg diddyfnu ac ennill mwy o bwysau wedyn;
- Trosi porthiant yn effeithlon.

Mae gwerth didolborthiant yn dibynnu'n fawr ar bris y porthiant, ac felly mae monitro prisiau porthiant a chyllidebu yn elfen bwysig o fagu lloi.

5.3 Pryd i ddidddyfnu

Yn aml bydd yr amser diddyfnu'n cael ei benderfynu gan oed y llo, ond dylid ystyried cyflwr corff y fuwch yn ogystal. Mae'r oed diddyfnu ar gyfer lloi wedi'u geni yn y gwanwyn yn amrywio o chwe mis i ddeng mis, ac i loi wedi'u geni yn yr hydref o wyth mis hyd ychydig cyn i'r llo nesaf gael ei eni. Mae modd diddyfnu lloi unrhyw bryd ar ôl pum mis oed. Dylai'r dewis o amser diddyfnu sicrhau cydbwysedd rhwng rheoli cyflwr corff y fuwch, cynnal cyfradd twf y llo, a sicrhau fod y gwaith yn cael ei wneud mor effeithlon ag y bo modd.

Dylai cyflwr corff y fuwch fod yn brif benderfynydd Mae yna achos cryf dros ddidddyfnu lloi yn gynnar pan fo buchod yn denau – â sgôr cyflwr o dan 2 – er enghraifft, yn ystod haf sych pan fo'r glaswellt yn fyr a phori'n gyfyngedig. Yn ogystal, mae yna achos o blaid gohirio ddidddyfnu pan fo buchod mewn cyflwr da ar borfa - sgôr cyflwr o 3 neu fwy. Y brif fantais yw bod llai'n cael ei wario ar borthiant ddechrau'r gaeaf am fod y fuwch yn byw i raddau ar ei braster.

Er mwyn atal buchod rhag mynd yn or-ffit a lleihau'r risg o fastitis yn yr haf, gellir caniatáu lloi i sugno buchod tan ychydig wythnosau cyn lloia.

Mae diddyfnu hwyr yn tueddu i weithio orau gyda buchod o deip traddodiadol neu famol sy'n gallu cynnal eu cyflwr corff yn rhwydd ar borfa o ansawdd gwael neu borthiant neu fwyd garw. Gall y bydd cyfiawnhad dros ddidddyfnu cynharach ar gyfer croesiadau cyntaf o'r fuches odro neu gyfuniadau o fridiau cyfandirol teneuach sy'n colli cyflwr yn gyflymach pan fo'r maeth yn wael. Mae diddyfnu cynharach yn cael ei argymhell hefyd ar gyfer buchod sy'n lloia am y tro cyntaf neu'r eildro ac sydd angen ennill pwysau yn ogystal â chynnal cyflwr os ydynt i barhau'n ffrwythlon.



6.1 Ymnerth croesryw

Ymnerth croesryw yw'r graddau y mae epil croesfrid o gyplu penodol yn well na bridiau'r rhieni. Er bod modd defnyddio ymnerth croesryw i wella nodweddion megis cyfradd twf, mae'n cael mwy o effaith ar nodweddion llai etifeddol megis ffrwythlondeb, cynnyrch llaeth a hirhoedledd. Mae'r nodweddion hyn, sy'n anodd eu gwella trwy fridio'n bur, yn cael eu gwella'n fawr trwy groesfridio – ac yn arwain at welliant o ran lloi'n goroesi, effeithlonrwydd atgenhedlol a chyfradd twf y lloi.

Wrth gynllunio rhaglen groesfridio mae'n bwysig ystyried a ydych yn dymuno cael yr ymnerth croesryw mwyaf posibl yn y llo, yn y fuwch (ymnerth croesryw mamol) neu'r ddau. Mae ymnerth croesryw mamol yn tueddu i olygu mwy o fanteision ariannol dros amser, oherwydd y cynnydd yn y cynnyrch cyffredinol a welir mewn buchod croesfrid mewn cymhariaeth â buchod purlinach.

Mae rhagor o wybodaeth am raglenni croesfridio yn y Llawlyfr Prynu Tarw gan HCC.

6.2 Bridio'n bur v croesfridio

Mae gan fuchesi pedigri ran bwysig i'w chwarae yng nghynhyrchu teirw stoc ar gyfer y fuches sugno ac maent yn cynhyrchu lloi sugno unffurf o safon uchel yn rheolaidd.

Mae buchesi croesfrid yn fwy niferus o lawer ac yn amrywio o fuchod hanner brid (hanner brid godro yn aml), trwy amryw o strwythurau bridio croesymgroes i fuchod cyfansawdd (e.e. Stabiliser).

Mae Tabl 11 yn dangos sut oedd cyfranogion WBQIP yn blaenoriaethu manteision bridio purlinach, gan nodi bod rheoli'r fuches a chadw clefydau dan reolaeth yn bwysig ond yn cydnabod bod croesfridio ac ymnerth croesryw yn aml yn fanteisiol i gynhyrchu.

Tabl 11 Manteision ac Anfanteision Bridio'n Bur

Manteision	Pwysigrwydd %	Anfanteision	Pwysigrwydd %
Rhwyddineb rheoli	25	Diffyg ymnerth croesryw	52
Buches gaeedig / Iechyd y Fuches	22	Cost llinachau newydd Mwy o weinyddu	17
Gwerthiannau Pedigri	18		
Marchnata a Gwerthu	15	Llai o laeth	15
Cadw nodweddion brid	10	Gwaeth perfformiad	14
Cysondeb	10	Llai o farchnad	1
		Llai o ffrwythlondeb	1

6.3 Bridio v prynu anifeiliaid amnewid

Mae maint y fuches fel arfer yn allweddol wrth benderfynu a yw anifeiliaid amnewid yn cael eu bridio ar y fferm. Mewn buchesi sugno bach byddai'n debygol o gymhlethu rheolaeth, yn enwedig os taw nod y farchnad yw marchnata lloi sugno o'r tarw terfynol. Gallai'r buchesi mwyaf (h.y. 100+ o fuchod) brynu teirw â nodweddion mamol addas a defnyddio teirw terfynol ar weddill y buchod nad oes eu hangen i fridio anifeiliaid amnewid. Yn ogystal â chadw clefydau dan reolaeth, mae modd hefyd reoli rhinweddau genetig y fuches.

Mae Tabl 12 yn dangos manteision ac anfanteision prynu anifeiliaid cyfnewid a sut oedd y ffactorau hyn yn cael eu blaenoriaethu gan gyfranogion WBQIP.

Tabl 12 Manteision ac Anfanteision Prynu Anifeiliaid Amnewid

Manteision	Pwysigrwydd %	Anfanteision	Pwysigrwydd %
Llinach newydd	25	Statws iechyd	46
Gwell defnydd o'r tarw	23	Potensial genetig anhysbys	21
Hyblygrwydd	22	Cost	16
Ymnerth croesryw	16	Tymer	13
Dewis	14	Argaeledd	4



Gall defnyddio geneteg uwchraddol a gweithredu arferion gorau gael effaith bwysig ar broffidioldeb y fuches gig eidion yng Nghymru. Mae'r llyfr hwn wedi canolbwyntio ar dri maes allweddol yn benodol sydd â dylanwad pwysig:

Geneteg

Yn ôl profiad bridwyr a gyfranogodd yn WBQIP, y nodweddion y mae ffermwyr yn dymuno'n bennaf gan darw yw'r rhai sy'n cael eu dylanwadu gan eneteg, pwysau, cydffurfiad a rhwyddineb lloia. Mae hyn yn golygu y gall y defnydd o EBVau chwarae rhan bwysig wrth wella perfformiad a phroffidioldeb buches.

Ffrwythlondeb

Mae gan ffrwythlondeb y fuches ddylanwad pwysig ar berfformiad ariannol buchesi sugno. Mae meincnodi a monitro perfformiad buches yn hanfodol a gall helpu i ddarganfod perfformiad gwael. Mae'r gallu i fesur cyfraddau anifeiliaid hysb, canran y lloia sy'n cael eu diddyfnu y fuwch, taeniad y lloia a marwolaethau lloia yn rhoi gwybodaeth sylfaenol y gellir ei defnyddio i reoli'r fuches yn well ac i gael manteision ariannol.

Iechyd y Fuches

Mae clefydau'n cael effaith bwysig ar ffrwythlondeb, iechyd y lloia a hirhoedledd anifeiliaid bridio. Gall clefydau fel BVD, Clefyd Johne, Campylobacter, leptosbirosis, ysgoth lloia a niwmonia mewn lloia gael effaith ofnadwy ar broffidioldeb buches. Serch hynny, mae modd eu rheoli'n effeithiol trwy raglen o fioggiogelwch, monitro a brechu pan fo hynny'n briodol. Mae cynllun iechyd buches sydd ar waith ac sy'n defnyddio data cynnyrch y fferm yn allweddol i fuches broffidiol ac iach.

Gall canolbwyntio ar y tri maes allweddol hyn gael effaith bwysig ar broffidioldeb y fuches. Mae WBQIP wedi darparu llwyfan fel y gall cynhyrchwyr yng Nghymru gyflawni nod cyffredin o gynhyrchu cynnyrch o'r ansawdd gorau yn broffidiol.

Mae Aled Edwards, Cil-y-cwm, Llanymddyfri, sy'n bridio gwartheg Limousin pedigri, yn canmol gwerth yr hyfforddiant a gafodd. Dywedodd fod y rhai sy'n prynu oddi ar y fferm bellach yn fwy gwybodus o ran adnabod EBVau nodweddion yn hytrach na dewis yn llwyr ar sail y mynegrif olaf. O'r blaen roedd prynwyr wedi osgoi ffigurau ac wedi prynu wrth farnu â'r llygad. Roedd llawer o brynwyr yn ystyried nodweddion lloia yn flaenoriaeth. Mae cymell y diwydiant pedigri i gofnodi a darparu data ystyrion i'r diwydiant masnachol yn dal i fod yn hollbwysig.

Rhagor o wybodaeth

Mae gan HCC ddewis eang o ddeunydd darllen ynglŷn â chynhyrchu cig eidion ar gael i ffermwyr. Mae'n cynnwys:

- Llawlyfr Prynu Tarw
- Llawlyfr i gynhyrchwyr cig eidion "O'r Gât i'r Plât"
- Teirw Magu Cig ar gyfer y Fuches Odro
- Cig Eidion Tarw – prisiadau a systemau cynhyrchu
- Gwneud y defnydd gorau o'ch gwartheg cig eidion sy'n pesgi
- Gwneud y defnydd gorau o'ch buchod sugno
- Maethu Gwartheg Cig yn Ymarferol
- Rheoli parasitiaid mewn wartheg – canllawiau newydd
- DVD o'r gat i'r plat

I gael rhagor o wybodaeth am y llyfryn hwn neu waith HCC, neu i ofyn am un o'r llyfrynau a restrir uchod, byddwchystal â chysylltu â

Ffôn: 01970 625050 neu ebost info@hccmpw.org.uk
neu fe allech ymweld â gwefan HCC www.hccmpw.org.uk